*Prifysgol y Plant Ar-lein:*

# Sut ydw i'n ychwanegu/dilysu fy ngweithgareddau yn yr ysgol?

Fel ysgol bydd angen i chi ychwanegu eich gweithgareddau yn yr ysgol sy'n rhan o Brifysgol y Plant at *Prifysgol y Plant Ar-lein*. Ar ôl eu dilysu byddwch yn gallu creu stampiau gweithgareddau y gall plant eu hychwanegu at eu pasbort a'u dangosfwrdd ar-lein. Bydd gweithgareddau yn yr ysgol yn ymddangos ar ddangosfwrdd eich myfyrwyr. Ni fyddant yn ymddangos yn gyhoeddus nac yn ymddangos ar ein chwiliad gweithgareddau cyhoeddus.

Mae dwy ffordd y gallwch ychwanegu a dilysu eich gweithgareddau yn yr ysgol. Gallwch ychwanegu gweithgaredd gyda rhestriad llawn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ba bryd bydd y gweithgaredd yn digwydd, disgrifiadau llawn o'r gweithgaredd a gwybodaeth am sut i ymaelodi â'r clwb (os yw'n berthnasol). Bydd gweithgareddau rhestriad llawn yn ymddangos ar ddangosfwrdd eich dysgwyr o dan *Beth sy'n digwydd yn yr ysgol.* Enw'r dull arall o ychwanegu gweithgaredd yw'r swyddogaeth *Gweithgaredd Sylfaenol.* Mae'n ffordd gyflym a hawdd o ychwanegu cod stamp wedi'i dagio â sgiliau a chategorïau ar gyfer gweithgaredd nad yw wedi'i ddilysu'n flaenorol, heb orfod llenwi'r ffurflen ddilysu cyrchfan dysgu lawn. Fodd bynnag, gan nad oes gwybodaeth amserlen wedi'i chynnwys mewn Gweithgaredd Sylfaenol, ni fydd y rhain yn ymddangos ar ddangosfwrdd y plant.

**Ychwanegu Gweithgaredd Sylfaenol**

**Yr hyn y bydd ei angen arnoch**


- Eich manylion mewngofnodi *Prifysgol y Plant Ar-lein*
- Teitl a gwybodaeth y gweithgaredd yr hoffech ei ddilysu

**Cam 1**

- Ewch i [www.childrensuniversity.co.uk](http://www.childrensuniversity.co.uk) a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

**Cam 2**

- Ar eich dangosfwrdd cliciwch ar *Add Basic Activity* o dan *Activity stamps*





Mae creu *Gweithgaredd Sylfaenol* yn ffordd gyflym a hawdd o gynhyrchu cod stamp gweithgaredd. Nid oes modd chwilio am *Weithgareddau Sylfaenol* yn gyhoeddus, ond gellir eu gweld trwy eich dangosfwrdd

**Cam 3**

**Ychwanegu Gweithgaredd Sylfaenol**

- Byddwch yn cael eich arwain i'r dudalen *Add Basic Activity* lle gofynnir i chi roi teitl i'r stamp a theipio pa mor hir bydd y gweithgaredd yn para. Yn yr enghraifft hon, mae'r *Clwb Codio* yn para 1 awr, felly byddech chi'n dewis 1 awr. Tagiwch y gweithgaredd gyda'r categorïau, y sgiliau a'r tagiau ymgysylltu perthnasol, yna cliciwch *Save*



**Enw'r Gweithgaredd**

**Oriau**

**Pa gategornau y dylai'r gweithgaredd hwn gyfrif tuag atynt?**

- [ ] Celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth
- [ ] Gyrfaoedd a mentergarwch
- [ ] Dinasyddiaeth
- [ ] Dysgu fel Teulu
- [ ] Hanes a threftadaeth
- [ ] Ieithoedd
- [ ] Llythrennedd
- [ ] Iechyd meddwl a lles
- [ ] Natur a'r amgylchedd
- [ ] Ar-lein
- [ ] Dysgu awyr agored
- [ ] Sgiliau bywyd ymarferol
- [ ] Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg
- [ ] Gweithredu cymdeithasol a chymunedol
- [ ] Chwaraeon a chorfforol
- [ ] Grwpiau mewn llfrai

**Pa sgiliau y dylai'r gweithgaredd hwn gyfrif tuag atynt?**

- [ ] Anelu'n uchel
- [ ] Creadigrwydd
- [ ] Arweinyddiaeth
- [ ] Gwrando
- [ ] Cyflwyno
- [ ] Datrys problemau
- [ ] Cadw'n bositif
- [ ] Gwaith tîm

**Pa ymgysylltiadau y dylai'r gweithgaredd hwn gyfrif tuag atynt?**

- [ ] A fydd cyfranogwyr yn agored i amgylcheddau AB neu AU, myfyrwyr a/neu staff?
- [ ] A fydd myfyrwyr yn rhyngweithio â chyflogwyr neu amgylchedd proffesiynol?
- [ ] A yw eich gweithgaredd yn dangos cysylltiad rhwng dysgu a llwybr gyrfa?

Cadw

## Cam 4


I ddilysu gweithgaredd ar gyfer eich ysgol bydd angen i chi gwblhau'r cam olaf, sef cynhyrchu cod stamp. Mae plant yn casglu codau stamp yn eu *Pasbort i Ddysgu.* Gallant wedyn roi'r codau hyn ar eu dangosfwrdd ar-lein. Mae'r codau stamp hyn yn hawdd eu cofio a'u hysgrifennu – dim ond lliw a phedwar rhif, fel Red 2468. Trwy ychwanegu'r codau hyn at *Prifysgol y Plant Ar-lein*, bydd plant yn datgloi gwybodaeth bellach sy'n amlygu'r diddordebau a'r sgiliau y maent yn eu datblygu trwy gymryd rhan. Mae gan bob plentyn ei ddangosfwrdd ei hun a fydd yn ei helpu i weld sut mae'n symud ymlaen tuag at y lefel ddyfarnu nesaf, yn ogystal â myfyrio ar y sgiliau mae'n eu datblygu a'i helpu i ddod o hyd i weithgareddau newydd. Mae hefyd fathodynnau unigryw ar-lein yn unig y gellir eu casglu rhwng camau graddio.


### Mae dwy ffordd o gynhyrchu cod stamp

### Stamp Gweithgaredd Defnydd Untro


Cod stamp yw hwn y gall pob plentyn ei gyflwyno ar-lein unwaith yn unig, a bydd yn ychwanegu cyfanswm nifer oriau'r gweithgaredd at gofnod y plentyn.  Unwaith y bydd plentyn wedi rhoi'r cod i'w ddangosfwrdd Prifysgol y Plant Ar-lein, ni fydd modd iddo wneud hyn eto. Dyma'r hyn y dylech ei ddewis pan fydd eich gweithgaredd yn weithgaredd untro yn unig.

Os dewiswch yr opsiwn hwn, cliciwch *Generate Stamp* a byddwch yn cael cod.  Bydd angen i chi nodi hyn neu ei gadw, i'w roi i'r aelod o staff sy'n cynnal y gweithgaredd. Gellir cael gafael ar y stamp hwn ar unrhyw adeg trwy eich dangosfwrdd.




Os yw'r gweithgaredd yn digwydd dros sawl sesiwn, cliciwch *Multiple-use Activity Stamp*




- Dewiswch *Each use adds the full hours*. Gan ddefnyddio'r *Clwb Codio* fel enghraifft, bob tro y bydd y plentyn yn ychwanegu'r stamp bydd yn credydu ei gyfrif gyda stamp gwerth 1 awr
- Nodwch sawl gwaith y gellir defnyddio'r cod stamp. Os yw clwb rheolaidd yn cael ei gynnal bob wythnos dros 10 wythnos, byddech yn nodi y gellir defnyddio'r stamp 10 gwaith

**Cam 5**

- Yna byddwch yn cael cod stamp i'w rannu â'r aelod o staff sy'n cynnal y gweithgaredd neu'n uniongyrchol â'r plentyn/rhiant


**Ychwanegu rhestriad llawn ar gyfer gweithgaredd**

**Cam 1**

- Ewch i [www.childrensuniversity.co.uk](http://www.childrensuniversity.co.uk) a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel staff a rhowch eich manylion. Bydd eich manylion mewngofnodi wedi'u hanfon atoch naill ai gan eich Rheolwr Prifysgol y Plant neu Ymddiriedolaeth Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, cysylltwch â [contactus@childrensuniversity.co.uk](mailto:contactus@childrensuniversity.co.uk)

**Cam 2**


- Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi, byddwch yn mynd i'ch Dangosfwrdd. Bydd angen i chi glicio ar *Add* o dan *Activities.*




Mae clicio *Add Activity* yn creu rhestriad llawn ar gyfer gweithgaredd wedi'i ddilysu – bydd hwn yn cynnwys gwybodaeth amserlen a disgrifiad llawn o'r gweithgaredd. Ni fydd unrhyw weithgaredd sy'n digwydd yn yr ysgol yn ymddangos yn gyhoeddus ac ni fydd ond yn hygyrch i staff a phlant yr ysgol

**Cam 3**

- Unwaith y byddwch wedi clicio ar *Add,* byddwch yn cael eich arwain i ffurflen i'w llenwi gyda manylion eich gweithgaredd yn yr ysgol
- Ar y gwymplen, dewiswch *In School*




**Cam 4**

- Nawr gofynnir i chi lenwi holl fanylion eich gweithgaredd yn yr ysgol... bydd y disgrifiadau ar gael i'ch myfyrwyr trwy eu dangosfyrddau

## Disgrifiwch y gweithgaredd

Bydd y pwt hwn i'w weld gan y cyhoedd ac yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'ch cofnod ar-lein, felly gwnewch ef yn ddeniadol ac yn addas i blant

## Pa ddysgu sy'n rhan o hyn?

Ni fydd y pwt hwn yn cael ei weld gan y cyhoedd ond bydd yn helpu staff Prifysgol y Plant i asesu addasrwydd y gweithgaredd. Amlinellwch ddeilliannau neu ddysgu allweddol y bydd plant yn eu hennill o gymryd rhan

### I ba gategorïau y mae eich gweithgaredd yn gweddu orau?

Gallwch ddewis hyd at 4, ond dewiswch yn ofalus

- ☐ Celfyddydau, diwylliant a cherddoriaeth
- ☐ Gyrfaoedd a mentergarwch
- ☐ Dinasyddiaeth
- ☐ Dysgu fel Teulu
- ☐ Hanes a threftadaeth
- ☐ Ieithoedd
- ☐ Llythrennedd
- ☐ Iechyd meddwl a lles
- ☐ Natur a'r amgylchedd
- ☐ Ar-lein
- ☐ Dysgu awyr agored
- ☐ Sgiliau bywyd ymarferol
- ☐ Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg
- ☐ Gweithredu cymdeithasol a chymunedol
- ☐ Chwaraeon a chorfforol
- ☐ Grwpiau mewn lifrai

### Pa sgiliau fydd yn cael eu hennill gan gyfranogwyr?

Gallwch ddewis hyd at 3, ond dewiswch yn ofalus

- ☐ Anelu'n uchel
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr osod nodau clir, diriaethol a dyfeisio llwybr cadarn i'w cyflawni?
- ☐ Creadigrwydd
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr ddefnyddio ei ddychymyg a chynhyrchu syniadau newydd?
- ☐ Arweinyddiaeth
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr gefnogi, annog ac ysgogi eraill i gyflawni nod a rennir?
- ☐ Gwrando
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr dderbyn, cadw a phrosesu gwybodaeth neu syniadau?
- ☐ Cyflwyno
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr gyfleu gwybodaeth neu syniadau i eraill?
- ☐ Datrys problemau
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr ddod o hyd i ateb i sefyllfa neu her gymhleth?
- ☐ Cadw'n bositif
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr ddefnyddio tactegau a strategaethau i oresgyn rhwystrau a chyflawni nodau?
- ☐ Gwaith tim
  A fydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwr gydweithio ag eraill i gyflawni nod a rennir?

- Meddyliwch yn ofalus am ba sgiliau rydych am eu cysylltu â'r gweithgaredd. Bydd y rhain yn weladwy i'r plant ar eu dangosfyrddau ac yn chwarae rhan wrth awgrymu pa weithgareddau eraill yr hoffent roi cynnig arnynt

**Cam 5**

Unwaith y bydd pob adran o'r ffurflen wedi'i chwblhau, bydd angen i chi gynhyrchu cod stamp ar gyfer y gweithgaredd. Mae cynhyrchu cod stamp ar gyfer gweithgaredd llawn yr un broses â chynhyrchu stamp ar gyfer *Gweithgaredd Sylfaenol.* Cyfeiriwch at *Cam 4 o* dan *Adding a Basic Activity*

**Problemau Cyffredin**

- Gall cynhyrchu stampiau gwahanol gymryd ychydig o amser i'w ddeall. Os ydych yn ansicr, efallai y byddai'n werth creu gweithgaredd prawf i'w ddilysu a chynhyrchu stampiau ar ei gyfer. Gallwch archifo hyn unwaith y byddwch yn teimlo'n gyfforddus gyda'r broses.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud nodyn neu'n cadw'r stamp rydych wedi'i gynhyrchu. Bydd angen i chi roi hyn i'r Gyrchfan Ddysgu fel y gallant ei ysgrifennu ym mhasbort y plant ar gyfer dysgu. Mae codau stamp bob amser ar gael trwy eich dangosfwrdd trwy chwilio am y gweithgaredd.

**Mae'n ddrwg gennyf, dydw i ddim yn deall o hyd!**

- Cysylltwch â'ch Rheolwr Prifysgol y Plant neu ein Swyddog Cynhwysiant Digidol, Cordelia Howard cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk